

## Cyflwyno'r newyddion: Newid cyflwr prinder dŵr

### Cyflwyniad

Mewn grwpiau o dri neu bedwar, byddwch yn cyflwyno'r newyddion am y gwaith ymchwil gwyddoniaeth rydych chi wedi darllen amdano. Bydd eich grŵp yn cael pum munud ar gyfer y cyflwyniad. Bydd pob person yn y grŵp yn cael un o'r rolau hyn:

- Cyflwynydd newyddion – cyflwyno'r stori a dod â'r cyflwyniad i ben. Mae'r cyflwynydd newyddion hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyflwyniad yn gorffen yn brydlon.
- Gohebydd – cyfweld â'r gwyddonydd/gwyddonwyr am yr ymchwil a gofyn cwestiynau a fydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.
- Gwyddonydd – ateb y cwestiynau, er mwyn i'r gynulleidfa ddeall y wyddoniaeth yn y stori. Os ydych mewn grŵp o bedwar, bydd gennych fwy nag un gwyddonydd.

### Cyfarwyddiadau

Gweithiwch gyda'ch gilydd i baratoi'r hyn rydych chi'n mynd i'w ddweud fel grŵp yn ystod eich cyflwyniad. Mae'n bwysig bod gan bawb rywbeth i'w ddweud. Ymarferwch eich cyflwyniad. Oedd y cyflwyniad yn rhy gyflym, neu'n rhy araf? Beth sydd angen i chi ei addasu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn para pum munud?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y termau **cyddwyso**, **sychdarthu** a **chrisialau** yn eich cyflwyniad. Faint o eiriau gwyddonol eraill allwch chi eu cynnwys?

### Cynghorion

- Defnyddiwch y templed sgrïpt ar y dudalen nesaf i'ch helpu.
- Darllenwch eich atebion i gam 6 ar y daflen waith. Bydd y rhain yn eich helpu chi hefyd.
- Gallwch hefyd ddefnyddio sleidiau gyda diagramau neu ddelweddau eraill i helpu eich cynulleidfa i ddeall y wyddoniaeth yn y stori. Cofiwch nodi ar eich sgrïpt pryd i ddangos y sleidiau i'r gynulleidfa.

<b>Rôl</b>	<b>Beth i'w gyfathrebu</b>	<b>Eich sgrïpt</b>
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch y mater mewn un frawddeg.	
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch y datrysïad. Felly dywedwch yn gryno ei bod yn bosibl bod gwyddonwyr wedi datrys y broblem.	
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch eich cyddisgybl sy'n ohebydd ac a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth.	
Gohebydd	Siaradwch yn fanylach am y broblem a'i chyd-destun.	
Gohebydd	Mewn un frawddeg, cyflwynwch y gwyddonydd/gwyddonwyr a dywedwch beth maent wedi'i wneud i ddatrys y broblem.	
Gohebydd	Gofynnwch eich cwestiwn cyntaf i'r gwyddonydd, sef gofyn iddo egluro beth mae wedi'i ddarganfod.	
Gwyddonydd	Atebwch y cwestiwn cyntaf.	
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd pam mae'r darganfyddiad yn bwysig.	
Gwyddonydd	Eglurwch y gwahaniaeth y gallai'r gwaith ymchwil hwn ei wneud i bobl ac ymhle y gellid ei ddefnyddio.	
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd beth mae angen iddo ei wneud neu	

	ei ddarganfod nesaf, er mwyn symud y gwaith ymchwil ymlaen tuag at gael effaith go iawn ar bobl.	
Gwyddo nydd	Dywedwch wrth y gohebydd beth arall sydd angen ei wneud neu ei ddarganfod er mwyn symud yn nes at sefyllfa lle mae'r darganfyddiad hwn yn cael effaith go iawn ar bobl.	
Gohebydd	Diolchwch i'r gwyddonydd.	
Gwyddo nydd	Cydnabyddwch y diolch.	
Cyflwynydd newyddion	Dywedwch rywbeth i ymateb i'r hyn y mae'r gwyddonydd a'r gohebydd wedi'i ddweud, sy'n adlewyrchu'r hyn y gallai eich cynulleidfa fod yn ei feddwl. Diolchwch i'r gohebydd. Bydd hyn yn dod â'r cyflwyniad i ben.	

Llenwch y daflen adborth isod tra bydd eich cyd-ddisgyblion yn rhoi eu cyflwyniadau.

<b>Rôl</b>	<b>Grŵp 1</b>	<b>Grŵp 2</b>	<b>Grŵp 3</b>	<b>Grŵp 4</b>	<b>Grŵp 5</b>
A wnaeth pawb yn y grŵp siarad am y newyddion gwyddoniaeth?					
Oedd hi'n amlwg beth oedd rôl pob person?					
A wnaeth y grŵp gadw at eu terfyn amser?					
Oedd hi'n amlwg beth oedd y newyddion a pham y dylai fod yn bwysig i bobl?					
Beth gallai'r grŵp ei wella, pe byddem yn gwneud y dasg hon eto?					